# Atodiad 11:

# Adolygiad Blynyddol o Daliadau Cynhaliaeth ar gyfer 2023/24

## Cynnwys

Negeseuon allweddol ..... 2

Ein cynigion codi tâl ..... 2

Cynnydd ar sail chwyddiant i nifer o’n cynlluniau mewn diffyg ..... 2

Cwestiynau’r Ymgynghoriad – Gweler Atodiad 9 ..... 3

## Negeseuon allweddol

Mae'r cynigion hyn yn ychwanegol at ein cynigion ar gyfer codi tâl am drwydded Adolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl (SRoC) ar gyfer 2023/24.

Mae ein taliadau rheoleiddio yn cynnwys gweithgarwch trwyddedu a chydymffurfio. Gellir rhannu ein hymgynghoriad taliadau 2023/24 yn ddau faes gwahanol, sef:

1. Ein cynigion trwyddedu manwl ar gyfer 2023/24 sy'n cael eu cynnwys yn ein Hadolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl (SRoC;
2. Ein hadolygiad blynyddol o daliadau cynhaliaeth (cydymffurfedd).

Mae'r atodiad hwn yn ymdrin yn benodol â phwynt dau, yr adolygiad blynyddol o daliadau cynhaliaeth.

Rydym wedi cynnal asesiad lefel uchel o'n taliadau cynhaliaeth o ran pwysau chwyddiant a'r sefyllfa gwarged / diffyg a ragwelir. Mae adran nesaf yr atodiad hwn yn manylu ar y newidiadau rydym yn bwriadu eu gweithredu ar gyfer 2023/24.

Mae pob dull, egwyddor a pholisi Rheoleiddio yn cael eu cymhwyso yn yr un modd ar gyfer taliadau cynhaliaeth ag y maent wedi bod ar gyfer ein cynigion trwyddedu manwl.

Am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 ymlaen, rydym yn cynnig cynnal ein taliadau cynhaliaeth blynyddol presennol cymaint â phosibl. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud addasiadau i rai taliadau i sicrhau ein bod yn lliniaru yn erbyn sefyllfaoedd o ddiffyg.

## Ein cynigion codi tâl

### Cynnydd ar sail chwyddiant i nifer o'n cynlluniau mewn diffyg

Rydym wedi nodi diffygion o fewn nifer o gyfundrefnau ac yn cynnig cynnydd o 6% yn y cyfundrefnau a ganlyn fel y gellir eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r cynnydd o +6.0% yn seiliedig ar ragolygon Mynegai Prisiau Defnyddwyr tymor hir chwarterol Trysorlys EF ar 22 Awst.

- Taliadau cynhaliaeth Adnoddau Dŵr
- Taliadau cynhaliaeth Ansawdd Dŵr
- Taliadau cynhaliaeth Rheoliad Anniwclear
- Taliadau cynhaliaeth Cydymffurfedd Cronfeydd Dŵr
- Taliadau cynhaliaeth Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd
- Taliadau cynhaliaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU
- Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)
- Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau

Mae pob maes taliadau cynhaliaeth arall yn parhau i fod wedi'i rewi ar gyfer 2023/24

Os bydd rhagolwg Mynegai Prisiau Defnyddwyr Trysorlys EF yn lleihau yn ystod y cyfnod ymgynghori neu cyn ei roi ar waith, bydd CNC yn ystyried lleihau cyfradd y cynnydd fel y bo'n briodol.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad – Gweler Atodiad 9